

Atodiad 2 – Ffurflen costau

Ardal a math o waith	£££
Lleoliad A	
Gosodwch banel dehongli (1) yn y wal sy'n son am y tŷ rhestredig Gradd II. * Panel o fesuriadau 600mm x 500mm i'w gyflenwi gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Dylai mownt y panel (67) gael ei gyflenwi gan y contractwr, gyda'r gosodiadau (68). Gosodwch y panel yn ddiogel ar ol-blât mowntio gan ddefnyddio epocsi gludiog neu ddeunydd tebyg.	
Cyfanswm (lleoliad A)	
Lleoliad B	
Atgyweiriwch a lefelu y wal garreg sych (2), gan ddefnyddio cerrig o'r lleoliad yn unig (2). Cadwch y mwsogl ar y wyneb a'r rhedyn sydd ar frig y wal, lle bo hynny'n bosib, ond tynwch y mieri ymledol, ac ati;	
Ail-adeiladwch tua 6 metr sgwâr o'r waliau sydd wedi dymchwel / cwmpo, gadewch y cerrig sylfafen yn eu lle a peidiwch a tharfu arnynt, ail-adeiladwch y geuffos / cylfat waelodol i dderbyn y bibell ddraenio (5);	
Ail-adeiladwch tua 6 metr sgwâr o frig / ben y wal;	
Cliriwch yr holl ddeunydd a ddyddodwyd ar ochr y coetir o'r wal wyneb i lawr o sylfeini'r wal. Dylai'r deunydd sy'n weddill (sbarion) gael eu lledaenu'n gyfartal trwy ardal y coetir. Dylid gwneud hyn ar ôl cwblhau'r gwaith (11), Lleoliad G.	
Cyfanswm (lleoliad B)	
Lleoliad C	
Crafwch yr holl bridd arwynebol ac unrhyw ddeunydd arall a ddyddodwyd o ardal (3) o tua 170 metr sgwâr i lawr at yr wyneb rwbel carreg;	
Rhaid symud unrhyw ddeunyddiau sy'n weddill (sbarion) oddi ar y safle a'u gwaredu mewn safle gwaredu gwastraff cymeradwy a chofrestredig;	
Er mwyn rhoi'r arwyneb, gosodwch haen o'r matin Terram geotextile T1000 (tua 170 metr sgwâr), gyda cherrig dros ei ben (tua 25mm i'r manion llychlyd) hyd lleiafswm dyfnder o 150mm, gan raddio i broffil y swbstrad cyfagos (cyfaint amcangyfrifedig o 40 metr ciwbig). Dylai'r cerrig gael eu cywasgu gan roler wedi'i bweru a'i lefelu er mwyn iddynt ddisgyn i'r geuffos / cylfat gwaelodol yn y wal (2), Lleoliad B;	
Gosodwch y panel dehongli 'croeso' yn (3A). Panel o ddimensiynau 1000mm x 700mm i'w gyflenwi gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Dylai mownt y panel (67) gael ei gyflenwi gan y contractwr, gyda'r gosodiadau (69). Sylwer os gwelwch yn dda: bydd hyn yn golygu bod angen tynnu ac ail-adeiladu tua 5 metr sgwâr o wal;	
Cyfanswm (lleoliad C)	
Lleoliad D	
Cloddiwch ffos o'r bibell lawrlif (4) i'r geuffos / cylfat gwaelodol yn y wal (2), Lleoliad B. Tua 12 metr o hyd a lleiafswm o 300mm o ddyfnder i dderbyn pibell Polythen Dwysedd Uchel (HDPE) ddeu wal (efeilliol) diamedr 150mm gyda'r cwmp i redeg at a thryw'r geuffos / cylfat gwaelodol yn y wal (2), Lleoliad B. Dylai'r bibell fod o leiaf 150mm o dan y wyneb gorffenedig;	
Gosodwch bibell Polythen Dwysedd Uchel (HDPE) hyblyg ar y bibell lawrlif (4) er mwyn gorchuddio pen y bibell lawrlif sydd wedi torri, dylai'r bibell hyblyg 150mm mewn diamedr ymestyn i mewn i geg pibell Polythen Dwysedd Uchel (HDPE) deu	

wal o leiaf 300mm. Ymgwymerwch â'r gwaith o osod y bibell hyblyg yn y fath fodd fel y gellir ei symud ymaith er mwyn cynnal gwaith glanhau / cynnal a chadw	
Cyfanswm (lleoliad D)	
Lleoliad E	
Tynnwch y bibell lawrlif (6) a'r cafnau bondo (7) yn ofalus, gan adael yr holl fracedi gosod yn eu lle;	
Yn (8), sdrimiwch a chliriwch yr holl lystyfiant sy'n rhy drwchus. Cloddiwch ffos ar hyd yr adeilad 300mm o led a 300mm o ddyfnder. Ôl-lenwch y ffos gyda cherrig glân 20mm (cyfaint amcangyfrifedig o 0.75 metr ciwbig);	
Rhaid symud unrhyw ddeunyddiau sy'n weddill (sbarion) o'r safle a gwaredu â hwy mewn safle gwaredu gwastraff cofrestredig a gymeradwywyd;	
Cyfanswm (lleoliad E)	
Lleoliad F	
Gosodwch haen o fatin geotextile Terram T1000 (tua 70 metr sgwâr) yn yr ardal suddedig (9), gyda cherrig drosto (oddeutu 25mm manion llychlyd) hyd isafswm o 150mm, gan raddio i broffil y swbstrad cyfagos (cyfaint amcangyfrifedig o 10 metr ciwbig). Dylai cerrig gael ei gywasgu gan roler wedi'i bweru;	
Cyfanswm (lleoliad F)	
Lleoliad G	
Sdrimiwch a chlirio'r holl lystyfiant coediog a llysieuol ifanc o ran o ardal y goedlan / coetir;	
Cliriwch yr holl ddeunydd a ddyddodwyd yn ôl ar ochr y coetir o wyneb y wal (2), Lleoliad B i lawr at sylfeini'r wal. Dylai'r deunydd sy'n weddill (sbarion) gael eu lledaenu'n gyfartal trwy'r ardal y coetir;	
Glanhewch hyd y ffos ar draws y coetir rhwng y ceuffosydd / cylfatau gwaelodol yn y wal (2), Lleoliad B. Dylai'r deunydd sy'n weddill (sbarion) gael eu lledaenu'n gyfartal trwy'r ardal y coetir / goedlan;	
Cyfanswm (lleoliad G)	
Lleoliad H	
Ail adeiladwch hyd y wal gyfan (13) i fyny o sylfeini presennol y wal. Ni ddylid tarfu ar y sylfeini. Tua 25 metr sgwâr.	
Cyfanswm (lleoliad H)	
Lleoliad I	
Rhwng y geuffos / cylfat gwaelodol yn y wal (2), Lleoliad B yn (14) ar draws y trac i ben y ffos (16) ar aliniad (15) cloddiwch ffos i dderbyn pibell Polythen Dwysedd Uchel (HDPE) deu wal diamedr 300mm gyda chwymp / disgyniad i (16). Dylai'r bibell fod yn o leiaf 25mm o dan y wyneb gorffenedig;	
Gosodwch arwyneb gwastad (17) o'r trac at a thrwy giât y cae (18), gan ymestyn o leiaf 5m tu hwnt i giât y cae i mewn i'r cae. Ar yr arwyneb, gosodwch haen o fatin geotextile Terram T1000 (tua 60 metr sgwâr), gyda cherrig (tua 25mm i'r manion llychlyd) hyd lleiafswm dyfnder o 150mm, gan raddio i broffil y swbstrad cyfagos (cyfaint amcangyfrifedig o 20 metr ciwbig). Dylai'r cerrig gael eu cywasgu gan roler wedi'i bweru;	
Gosodwch giât cae newydd 3.6m o led (18) o fath (64) gyda math clust (latsh) hawdd (65). Ail drowch gyfeiriad agor y giat, gyda cholfachau wedi'u drilio a 'Set Angori' (neu debyg) wedi'u gosod i mewn i biler carreg (19), gan dynnu rhan o'r wal (20) i lawr ac adeiladu pen newydd i'r wal er mwyn cynnwys giat lletach i'r cae.	

Dylai'r postyn derbyn ymestyn o leiaf 300mm uwchben top / brig y giât. Mae angen paentio y 300mm uchaf. Rhaid i'r lliw gael ei gytuno gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar ddechrau'r gwaith. Gosodwch ddisgiau marcio'r ffordd (cyfeiriad) (2 ohonynt.) ar y postyn derbyn ar yr ochrau gorllewinol a dwyreiniol, bydd y disgiau yn cael eu cyflenwi gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri;	
Cyfanswm (lleoliad I)	
Lleoliad J	
Glanhewch y ffos (21) i'r gogledd-ddwyrain o drac mynediad y fferm mewn modd fel nad yw hyn yn ansefydlogi'r ymylon y trac;	
Rhowch sylw arbennig i lanhau ffos (21) lle mae'n ymuno â ffos ddraenio cae a rei phen de-ddwyreiniol, i'r gogledd o giât cae (26); a, lle mae'n rhedeg drwy'r llinell ffens i'r de o giât cae (26) yn lleoliad (25). Dylai'r geuffos / cylfat gael ei ail-greu yn lleoliad (25), gyda ymylon y ffos yn cael ei hatgyfnerthu â chlogfeini rhag iddynt gael eu sgwrio pan fydd llifeiriant y dŵr yn digwydd;	
Rhwng pen de-ddwyreiniol y ffos (21) ar draws trac mynediad y cae i leoliad (24) ar aliniad (23) cloddiwch cwter / ffos i dderbyn pibell polythen dwysedd uchel (HDPE) deu wal diamedr 300mm gyda chwymp i (24). Rhaid i'r bibell fod o leiaf 25mm o dan y wyneb gorffenedig;	
Gosodwch wyneb lefel (27) o'r trac i a drwy giât y cae (26), gan ymestyn o leiaf 5m y tu hwnt i giât y cae i mewn i'r cae. Ar yr arwyneb, gosodwch haen o fatin geotextile Terram T1000 (tua 75 metr sgwâr), gyda cherrig drosto (tua 25mm i'r manion llychlyd) lleiafswm dyfnder o 150mm, gan raddio i broffil y swbstrad cyfagos (cyfaint amcangyfrifedig o 20 metr ciwbig). Dylai'r cerrig gael eu cywasgu gyda roler wedi'i bweru;	
Gosodwch giât cae newydd 3.6m o led (26) o fath (64) gyda math clust/ latsh) hawdd (65). Tacluswch ffensys y caeau at grog y giat newydd a'r pyst derbyn;	
Rhaid symud unrhyw ddeunyddiau sy'n weddill (sbarion) o'r safle a gwaredu â hwy mewn safle gwaredu gwastraff cofrestredig a gymeradwywyd;	
Cyfanswm (lleoliad J)	
Lleoliad K	
Gosodwch oddeutu 55m o ffensys newydd (28) gwrth stoc i greu compownd, dylai aliniad y ffens gael ei gytuno ar yr adeg pan gaiff ei gosod. Rhaid i'r ffens fod â lleiafswm uchder o 1000mm, gyda netin mochyn C8 / 80/15 wedi'i osod rhwng 50mm a 100mm uwch ben wyneb y ddaear, gydag un haen o wifren farog is law'r netin a dwy llyn o wifren farog uwchben y netin. Rhaid i'r pyst tynnu gael eu trin da bwysau a'u pario a bod o leiaf 2100mm o hyd a gyda diamedr o 150mm. Rhaid gosod y pyst ar bob pen o'r ffens, ym mhob cornel ac yn erbyn y giat gae newydd (29). Rhaid i'r pyst rhyngddynt gael eu trin â phwysau ac fod o'r math crwn llawn 75mm mewn diamedr gyda bwllch o 2m o le rhyngddynt;	
Gosodwch giât cae newydd 3.6m (29) o fath (64) gyda chlust (latsh) awtomatig amaethyddol safonol;	
Symudwch y pydew arolygu draeniad (30), gan ôl-lenwi'r twll gyda cherrig glân 25mm;	
Gosodwch giât cae 3.6m o led (31) o fath (64) gyda chlust awtomatig amaethyddol safonol, gan ddymchwel ac ail aideiladu pen (nau) y wal fel bo'r angen er mwyn gwneud lle ar eu cyfer;	
Gosodwch yr wyneb o'r trac (33) trwy giât y cae (31) ac ar draws y tu mewn i'r compownd (32) ac i a thrwy giât y cae (29) i 5m y tu hwnt. Ar yr arwyneb, gosodwch	

haen o fatin geotextile Terram T1000 (tua 525 metr sgwâr), gyda cherrig drosto (a rei ben) (tua 25mm i'r manion llychlyd) gyda lleiafswm dyfnder o 150mm, gan raddio i broffil y swbstrad cyfagos (cyfaint amcangyfrifedig o 150 metr ciwbig). Dylai'r cerrig gael eu cywasgu gyda roler wedi'i bweru fel bod y tu mewn i'r compownd yn wastad heb unrhyw bantiau;	
Rhaid symud unrhyw ddeunyddiau sy'n weddill (sbarion) oddi ar ar y safle a'i waredu mewn safle gwaredu gwastraff cymeradwy a chofrestredig;	
Cyfanswm (lleoliad K)	
Lleoliad L	
Tynnwch ran o'r wal i lawr (34) a gosod giat dwy ffordd newydd i gerddwyr (66). Tacluswch pennau'r wal i'r giât;	
Gosodwch i mewn yn y wal yn (34A) i'r de-de-ddwyrain, giât newydd i gerddwyr (34) a phanel dehongli am y ficws. Bydd y panel sy'n mesur 600mm x 500mm yn cael ei gyflenwi gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Bydd mownt y panel (67) yn cael ei gyflenwi gan y contractwr, gyda'r gosodiadau (69). Dylid gosod mownt y panel pan fo pen y wal yn cael ei hail-adeiladu;	
Gosodwch wyneb o'r trac i a thrwy'r giât i gerddwyr (34) a 3m i mewn i'r cae y tu hwnt. Ar gyfer yr arwyneb, gosodwch haen o fatin geotextile Terram T1000 (tua 20 metr sgwâr), gyda cherrig drosto (tua 25mm o falurion llychlyd) hyd isafswm dyfnder o 150mm, gan raddio i broffil y swbstrad cyfagos (cyfaint amcangyfrifedig o 4 metr ciwbig). Dylai'r cerrig gael eu cywasgu gan roler wedi'i bweru;	
Rhaid symud unrhyw ddeunyddiau sy'n weddill (sbarion) oddi ar ar y safle a'i waredu mewn safle gwaredu gwastraff cymeradwy a chofrestredig;	
Cyfanswm (lleoliad L)	
Lleoliad M	
Tynnwch ran o'r wal i lawr (35) a gosod giat newydd dwy ffordd i gerddwyr (66). Tacluswch bennau'r wal i'r giât;	
Gosodwch wyneb o'r trac at a thrwy'r giât i gerddwyr (35) a 3m i mewn i'r cae y tu hwnt. Ar gyfer yr arwyneb, gosodwch haen o fatin geotextile Terram T1000 (tua 20 metr sgwâr), gyda cherrig ar ei ben (tua 25mm i'r manion) hyd lleiafswm dyfnder o 150mm, gan raddio i broffil y swbstrad cyfagos (cyfaint amcangyfrifedig o 4 metr ciwbig). Dylid cywasgu'r cerrig gyda roler wedi'i bweru;	
Crafwch y trac yn (36), gan gloddio ffos fas i dderbyn pibell Polythen wedi'i Drin Dan Bwysau (HDPE) ddeu wal diamedr 150mm a hyd o tua 10m;	
Rhwng y giât i gerddwyr 35 a'r giât cae (38) / giât i gerddwyr (39) gosodwch arwyneb wedi'i raddio i gladdu pibell (36) o dan o leiaf 150mm o gerrig llenwi a rhedeg i raddio i'r gogledd a'r de gyda chroesiad y trac amaethyddol. Dylai'r arwyneb ymestyn o leiaf 5m i'r cae yn (37). I roi arwyneb, gosodwch haen o fatin geotextile Terram T1000 (tua 80 metr sgwâr), gyda cherrig ar ei ben (tua 25mm i'r manion) at leiafswm dyfnder o 150mm, gan raddio i broffil y swbstrad cyfagos (cyfaint amcangyfrifedig o 30 metr ciwbig). Dylid cywasgu'r cerrig gyda roler wedi'i bweru;	
Gosodwch giât gae newydd 3.6m o led (38) o fath (64) gyda chlust (latsh) awtomatig amaethyddol safonol. Dylai'r postyn tynnu ymestyn o leiaf 300mm uwchben top y giât ac fe ddylid ei phaentio, dylai'r Lliw gael ei gytuno gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar ddechrau'r gwaith. Gosodwch ddisg marcio'r cyfeiriad / ffordd ar gyfer y postyn derbyn, bydd y ddisg yn cael ei chyflenwi gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri;	

Cyfagos i giat gae (38) i'r gogledd yn safle (39) gosodwch giat newydd dwy ffordd i gerddwyr (66). Symudwch sylfeini y waliau blaenorol yn ôl yr angen er mwyn darparu lle ar gyfer giât newydd i gerddwyr a thacluso'r ffens amaethyddol at y giât newydd i gerddwyr;	
Gosodwch wyneb o'r trac at a thrwy y giât i gerddwyr (39) a 3m i mewn i'r cae y tu hwnt fel rhan o waith yn (37), i'r un fanyleb;	
Rhaid symud unrhyw ddeunyddiau sy'n weddill (sbarion) oddi ar ar y safle a'i waredu mewn safle gwaredu gwastraff cymeradwy a chofrestredig;	
Cyfanswm (lleoliad M)	
Lleoliad N	
Gosodwch oddeutu 28m o ffens newydd gwrth stoc rhwng corneli yr adeilad ar (41) a (42). Rhaid i'r ffens fod â lleiafswm uchder o 1000mm, gyda netin mochyn C8 / 80/15 wedi'i osod rhwng 50mm a 100mm uwchben wyneb y ddaear, gydag un haen o wifren farog is law y netin a dwy haen o wifren farog uwch ben y netin. Rhaid i'r pyst tynnu gael eu trin o dan bwysau a'u pario, dylent fod o leiaf 2100mm o hyd a diamedr yn 150mm. Rhaid gosod y pyst tynnu ar bob pen i'r ffens, ym mhob cornel ac yn erbyn y giat gae newydd (29). Rhaid i'r pyst rhynddynt gael eu trin o dan bwysau a bod yn rai crwn llawn ac yn 75mm o ddiamedr gyda bwllch o 2m rhyngddynt;	
Gosodwch giât newydd 3.6m o led (40) o fath (64) i mewn linell y ffens gyda chlust (latsh) awtomatig amaethyddol safonol;	
Symudwch y waliau blociau sy'n sefyll a'r sylfeini (43);	
Gosodwch arwyneb ar draws maint yr ardal sydd wedi'i ffensio. I osod yr arwyneb, gosodwch haen o fatin geotextile Terram T1000 (tua 500 metr sgwâr), gyda cherrig ar ei ben (tua 25mm o fanion) hyd lleiafswm dyfnder o 150mm, gan raddio i broffil y swbstrad cyfagos (cyfaint amcangyfrifedig o 100 metr ciwbig). Dylai cerrig gael eu cywasgu gyda roler wedi'i bweru;	
Rhaid symud unrhyw ddeunyddiau sy'n weddill (sbarion) oddi ar ar y safle a'i waredu mewn safle gwaredu gwastraff cymeradwy a chofrestredig;	
Cyfanswm (lleoliad N)	
Lleoliad O	
Gosodwch giât cae newydd (45) o fath (64) gyda chlust awtomatig amaethyddol safonol, post tynnu i'w osod ar wal flocc yr adeilad (dim treiddio'r tir), gan ddefnyddio bolltiau isafswm M20 wedi'i edau trwodd i blat gefn galfanedig 1500mm x 150mm ar y tu mewn i'r adeilad. Gosodwch y postyn derbyn ar ddiwedd y wal newydd (dim treiddio'r tir), unwaith eto gan ddefnyddio bolltiau isafswm M20 wedi'i edau trwodd ar blât gefn galfanedig 1500mm x 150mm x 4mm wedi'i gosod yn y wal;	
Crafwch y ddaear sydd wedi cael ei photsio'n drwm. Rhaid symud yr holl fanion (sbarion) oddi ar y safle a'i waredu mewn safle gwaredu gwastraff cymeradwy a chofrestredig;	
Gosodwch arwyneb at a thrwy giât cae newydd ar hyd yr adeilad cyfagos yn ei gyfanrwydd. Er mwyn gosod yr arwyneb, gosodwch haen o fatin geotextile Terram T1000 (tua 200 metr sgwâr), gyda cherrig (tua 25mm i'r manion) hyd lleiafswm dyfnder o 150mm, gan raddio i broffil y swbstrad cyfagos (cyfaint amcangyfrifedig o 40 metr ciwbig). Dylai'r cerrig gael eu cywasgu gan roler wedi'i bweru;	
Cyfanswm (lleoliad O)	

Lleoliad P	
Tynnwch i lawr ac ail adeiladu tua 100 metr sgwâr o'r wal (49), gan ddefnyddio'r sylfeini presennol na ddylai gael eu tarfu ac mae'n rhaid defnyddio pob carreg o (49) ac fe ddylid ychwanegu atynt gydag unrhyw garreg dros ben sydd wedi cael ei achub o waith walio mewn lleoliadau eraill er mwyn gwneud pen wal newydd sydd â gorffeniad gwastad a lefel i gyd;	
Yn ystod y gwaith adeiladu'r waliau, ymgorfforwch ddarnau o wifren galfanedig diamedr 5mm gyda gwagle o 2m o le i alluogi i byst ffensio gael eu cysylltu yn ddiweddarach;	
Gosodwch ffens ar hyd waliau mewnol (h.y. ochr y tŷ). Rhaid i'r pyst tynnu gael eu trin o dan bwysau a bod yn rai crwn wedi eu pario ac yn lleiafswm 2100mm o hyd a diamedr 150mm. Rhaid gosod y pyst tynnu ar bob pen o'r ffens ac ar yr un gornel. Rhaid i'r pyst rhyngddynt gael eu trin o dan bwysau ac yn rhai crwn llawn 75mm o ddiamedr gyda bwch bob 2m o le. Rhaid gosod y pyst sydd rhyngddynt yng ngwyneb y ddaear heb fod yn fwy na 150mm. Fe'u clymir i'r wal gan ddefnyddio'r wifren linell galfanedig 5mm a osodwyd yn flaenorol. Rhaid i'r ffens fod ag uchder o o leiaf 1200mm, gyda netin mochyn C8 / 80/15 wedi'i osod rhwng 50mm a 100mm uwchben wyneb y ddaear, gydag un sribyn o wifren farfog is law'r netin a dau sribyn o wifren farfog uwch ben y netin;	
Lle nad oes wal gyfagos i glymu â'r ffens, ee yn y gornel (50), rhaid i'r pyst rhyngol gael eu gyrru i mewn i'r is-haen gan ddefnyddio'r tyllau pyst sy'n bodoli'n barod lle bynnag y bo modd;	
Cyfanswm (Lleoliad P)	
Lleoliad Q	
Gosodwch giât gae (51) newydd 3.6m o led o fath (64) sydd â chlust (latsh) hawdd (65), gan symud sylfeini blaenorol y wal yn ôl yr angen er mwyn darparu ar eu cyfer. Dylai'r postyn tynnu ymestyn o leiaf 300mm uwchben top y giât a chael ei beintio. Rhaid i'r lliw gael ei gytuno gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar ddechrau'r gwaith. Gosodwch ddisgiau marcio'r cyfeiriad / ffordd ar y postyn tynnu, bydd y disg yn cael ei gyflenwi gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Tacluswch ffensys y giât.	
Gosodwch wyneb lefel (52) trwy giât y cae (51), gan ymestyn o leiaf 5m y tu hwnt i giât y cae ar y naill ochr a'r llall. Ar yr arwyneb, gosodwch haen o fatin geotextile Terram T1000 (tua 40 metr sgwâr), gyda cherrig drosto (oddeutu 25mm hyd y ffinau) hyd isafswm dyfnder o 150mm, gan raddio i broffil y swbstrad cyfagos (cyfaint amcangyfrifedig o 20 metr ciwbig). Dylai'r cerrig gael eu cywasgu gan roler wedi'i bweru;	
Mae'n rhaid symud yr holl sbarion oddi ar y safle a'u gwaredu mewn safle gwaredu gwastraff cymeradwy a chofrestredig;	
Cyfanswm (Lleoliad Q)	
Lleoliad R	
Gosodwch arwyneb lefel (53) ar draws trac y rhodfa, gan ymestyn o leiaf 5m ar y naill ochr a'r llall. Ar yr arwyneb, gosodwch haen o fatin geotextile Terram T1000 (tua 80 metr sgwâr), gyda cherrig drosto (tua 25mm hyd y manion llychlyd) hyd isafswm dyfnder o o leiaf 150mm, gan raddio i broffil y swbstrad cyfagos (cyfaint amcangyfrifedig o 20 metr ciwbig). Dylid cywasgu cerrig gyda roler wedi'i bweru.	
Peintiwch rhan uchaf 300mm postyn 53A. Rhaid i'r lliw gael ei gytuno gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar ddechrau'r gwaith. Gosodwch ddisgiau	

marcio cyfeiriad / ffordd (2 ohonynt.) ar y postyn ar yr ochr ogledd-orllewinol a de-ddwyreiniol, bydd y disgiau yn cael eu cyflenwi gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri;	
Cyfanswm (lleoliad R)	
Lleoliad S	
Gosodwch giât cae newydd 3.6m o led (54) o fath (64) sydd â chlust (latsh) awtomatig amaethyddol safonol, gan dynnu'r wal i lawr i'r de-ddwyrain yn ôl yr angen er mwyn darparu ar ei gyfer;	
Tynwch i lawr ac ail adeiladu oddeutu 10 metr sgwâr o'r wal (55) i'r de-ddwyrain o'r giât cae newydd, gan ddefnyddio deunyddiau o leoliad (55) a defnyddio'r sylfeini sy'n bodoli eisoes, a ddylai gael eu gadael heb darfu arnynt;	
Yn ystod y gwaith o ail adeiladu waliau, gosodwch banel dehongli (55A) i mewn i'r wal sy'n son am du mewn y gaer. Bydd y panel o faint dimensiynau 900mm x 600mm yn cael ei gyflenwi gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Bydd mownt y panel (67) yn cael ei gyflenwi gan y contractwr, gyda'r gosodiadau (69).	
Cyfanswm (lleoliad S)	
Lleoliad T	
Tynnwch i lawr ac ail adeiladu oddeutu 10 metr sgwâr o rannau ansefydlog o'r waliau (56) gan ddefnyddio deunyddiau sy'n bodoli eisoes, a defnyddio'r sylfeini sy'n bodoli'n barod ac ni ddylid tarfu ar y rhain;	
Sdrimiwch a chlirio'r danadl poethion a'r brwyn o waelod y ffos (57);	
Rhaid symud unrhyw ddeunyddiau sy'n weddill (sbarion) oddi ar y safle a'i gwaredu mewn safle gwaredu gwastraff cymeradwy a chofrestredig	
Cyfanswm (lleoliad T)	
Lleoliad U	
Glanhewch linell y ffos (58) i dderbyn pibell ddraenio rhydylllog hyblyg oddeutu 8m o hyd a 150mm mewn diamedr;	
Glanhewch linell y ffos (59) i dderbyn pibell ddraenio rhydylllog hyblyg oddeutu 8m o hyd a 150mm mewn diamedr, sy'n gorwedd gyfocrog â phibell (58) lle mae'r ddau yn gorwedd i'r dwyrain-gogledd-ddwyrain o linell y wal gynt;	
Symudwch cerrig y wal a'r sylfeini ar draws hen linell y wal ac am hyd o 3m ar hyd llinell y wal. Defnyddiwch garreg a adferwyd i greu dadlennau i'r gogledd a'r de o'r llwybr newydd i'w gosod. Gadewch y gwreiddiau heb aflonyddu arnynt;	
Gosodwch wyneb (60) o leiaf 6m o hyd a 2m o led ar draws llinell yr hen wal rhwng y dadlennau a grewyd. Ar yr arwyneb, gosodwch haen o fatin geotextile Terram T1000 (tua 12 metr sgwâr), gyda cherrig drosto (tua 25mm hyd y manion llychlyd) hyd ddyfnder o o leiaf 150mm, gan raddio i broffil y swbstrad cyfagos (cyfaint amcangyfrifedig o 10 metr ciwbig). Dylid cywasgu cerrig gan roler wedi'i bweru. Dylid creu wyneb gwastad, sy'n lefel o ochr i ochr â dylai fod ar raddiant bach graddol. Dylid claddu pibellau draenio'n llawn a gellir eu byrhau er mwyn cyflawni hyn, lle bo angen;	
Torrwch ganghennau'r coed / llwyni cyfagos er mwyn hwyluso mynediad;	
Cyfanswm (lleoliad U)	
Lleoliad V	
Tynnwch i lawr ac ail adeiladu oddeutu 3.5 metr sgwâr o'r wal, er mwyn galluogi ar gyfer rhoi gosodiad i mewn yn y wal yn (61) sef y panel dehongli am y mansio / baddondy. Bydd y panel o ddimensiynau 700mm x 500mm yn cael ei gyflenwi	

gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Bydd mownt y panel (67) yn cael ei gyflenwi gan y contractwr, a'r gosodiadau (69);	
Cyfanswm (lleoliad V)	
Lleoliad W	
Tynnwch i lawr ac ail-greu tua 4 metr sgwâr o wal hanesyddol (62) yn union fel y nodir ar ffotograff manyleb Lleoliad W. Dylai'r wal a ail adeiladir gael ogwydd sy'n gwyro ychydig am yn ôl a bydd yn cyd-fynd â phroffil (63) gerllaw;	
Torrwch y ddraenenen a'r planhigion gwrych eraill yn ôl yr angen er mwyn hwyluso'r gwaith o ail adeiladu'r waliau;	
Rhaid gorffen (topio) brig y wal â phridd a thywarchen sydd wedi deillio o waith arall;	
Rhaid symud unrhyw ddeunyddiau sy'n weddill (sbarion)oddi ar y safle a'u gwaredu mewn safle gwaredu gwastraff cymeradwy a chofrestredig	
Cyfanswm (lleoliad W)	
Unrhyw cost arall (os yw'n berthnasol)	
Cyfanswm gyfangwbl am y gwaith	